

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

Parthed: C&V CPR04/2018

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma:

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ynglŷn â pha adolygiad a gynhelir*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Cyfnod amser a adolygir a phaham*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan *Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro* ar 04/09/2019 ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant ac Oedolion yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (rhifyn 2)'. Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn o dan adran 3.4 o'r canllawiau uchod a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

'Rhestrir y meini prawf ar gyfer adolygiadau arfer plant/oedolion yn Rheoliad 4 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) Cymru 2015 sy'n nodi bod rhaid ymgymryd ag adolygiadau ymarfer plant/oedolion lle y gwyddys am gam-drin neu esgeulustod neu pan amheuir bod hyn yn digwydd ac mae'r plentyn/oedolyn wedi;

- Marw, neu
- Gael ei anafu mewn ffordd a allai arwain at farwolaeth, neu
- Wedi cael anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd neu ddatblygiad

Yn unol â'r canllawiau, bodlonwyd y meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno; roedd tystiolaeth o esgeulustod plant a allai fod wedi dioddef nam difrifol neu barhaol ar iechyd a datblygiad. Comisiynwyd Adolygiad Cryno yn hytrach nag Adolygiad Estynedig gan nad oedd y plentyn, am y chwe mis cyn darganfod yr esgeulustod, wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant nac wedi bod yn blentyn sy'n derbyn gofal.

Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad:

Gwnaed galwad yn ddiennw i'r RSPCA ym mis Awst 2017, ynglŷn â phryderon mewn perthynas â lles cathod anwes y teulu. Canfuwyd bod y cartref mewn cyflwr gwael, wedi'i halogi ag wrin ac ysgarthion cathod, dim bwyd ac roedd sbwriel ac annibendod gormodol ym mhob rhan o'r tŷ (dros 100 o fagiau du o sbwriel, a dynnwyd o'r cartref yn ddiweddarach). Yn dilyn y darganfyddiad hwn, cysylltwyd â'r NSPCC a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a rhoddwyd gweithdrefnau diogelu ar waith. Cafodd y plant eu tynnu o ofal eu mam a'u rhoi yng ngofal dros dro mam-gu o ochr eu tad, nes i'w tad symud yn ôl i'w hardal gartref i ofalu amdanynt.

Roedd gan un o'r plant gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd. Cyn y digwyddiad uchod, gwnaed atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10/08/2015 gan Nyrs Plant arbenigol, gan fod y fam wedi methu â chasglu presgripsiynau'r plentyn am bron i flwyddyn ac wedi methu ag ymgysylltu ag ymweliadau cartref. Nodwyd dangosyddion esgeulustod a fyddai'n amharu'n fwy dwys a allai fod yn ddifrifol ac yn barhaus ar iechyd y plentyn sydd â'r cyflwr penodol hwn sy'n cyfyngu ar fywyd; felly mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y plentyn penodol hwnnw.

Roedd e-bost diennw blaenorol hefyd wedi'i anfon at linell gymorth yr NSPCC ar 28/03/2015, gan godi pryderon am amodau byw'r plant. Dywedwyd bod y plant yn bwyta bwyd sydd wedi dyddio, eu bod yn flêr ac nad oeddent yn mynychu'r ysgol wedi'u gwisgo'n briodol. Nododd yr e-bost fod y tŷ yn anaddas i'r plant fyw ynddo a bod lefelau sylweddol o sbwriel y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Nododd ymarferydd llinell gymorth yr NSPCC fod y plant mewn perygl o niwed oherwydd nad oedd eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu a gwnaed atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Plant Bro Morgannwg gan yr NSPCC ar 30/03/2015.

Roedd y cyfnod amser a adolygwyd rhwng 1 Awst, 2015 a 31 Awst, 2017. Mae'r amserlen dwy flynedd yn cwmpasu'r atgyfeiriad cychwynnol a wnaed ym mis Awst 2015 pan nodwyd dangosyddion esgeulustod, hyd at y digwyddiad a sbardunodd weithdrefnau diogelu.

Derbyniwyd gwybodaeth gefndir gan Wasanaethau Plant BM yn manylu ar yr atgyfeiriadau blaenorol a dderbyniwyd am les y plant.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwylnt dysgu unigol sy'n codi'n yr achos hwn (gan gynnwys amlygu arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol.

Daeth cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc BM, Gwasanaethau Tai BM, Adran Addysg BM, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yr NSPCC a'r RSPCA i'r digwyddiad dysgu. Cysylltwyd â theulu'r plant a chynhaliwyd cyfweiliadau gyda dau aelod o'r teulu sy'n oedolion. Cafodd cyfweiliad pellach ei gynnal hefyd gyda'r meddyg teulu.

Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth

Roedd ymarferwyr cyn ac yn ystod y digwyddiad dysgu wedi nodi eu bod, ar adegau, wedi gweithio ar wahân i'w gilydd. Nid oeddent bob amser yn cysylltu ag asiantaethau eraill yn briodol ar adeg o bryder.

Arweiniodd atgyfeiriad MARF a wnaed gan gynrychiolydd lechyd at unrhyw gamau pendant gan y gwasanaethau cymdeithasol gan fod y rhiant, pan gysylltodd y gwasanaethau cymdeithasol â hi, wedi tynnu sylw at bryderon am les ei phlentyn drwy honni bod ganddi berthynas wael â'r gweithiwr proffesiynol a oedd wedi gwneud yr atgyfeiriad. Ni siaradodd y gwasanaethau cymdeithasol â'r atgyfeiriwr. Ers hynny, mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi newid eu gweithdrefnau a'u canllawiau ynghylch atgyfeiriadau MARF a gwneir ymdrechion yn awr i siarad â'r atgyfeiriwr cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gwtogi unrhyw gysylltiad â'r plentyn.

Staff o bob asiantaeth i gynyddu eu hyder gyda'r **Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol**. Os nad yw gweithwyr proffesiynol yn fodlon ar benderfyniad a wneir gan asiantaeth arall, dylid eu cefnogi i herio'r penderfyniad i sicrhau bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau cymorth ychwanegol i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.

Esgeulustod plant a ffug-gydymffurfiaeth.

Nododd y Digwyddiad Dysgu fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wedyn o ran cofnodi pryderon am blant yn yr ysgol (system gofnodi electronig 'Fy Mhryder' a weithredwyd ym mis Medi 2016) a byddai dull mwy cadarn yn cael ei wneud yn awr pe bai plentyn yn mynychu'n rheolaidd heb ei drin yn yr ysgol ac yn cael ei wisgo'n annigonol. Mae addysg yn ymwybodol iawn o gynnal perthynas waith dda gyda rhieni gan nad ydynt yn dymuno dieithrio rhieni a phlant sy'n agored i niwed ac mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i gyfeirio pryderon yn briodol at esgeulustod plant i'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau nad yw niwed sylweddol i blentyn yn digwydd. Gall rhiant ymddangos yn agored i gael gafael ar gymorth a gall fod yn anodd nodi llusgo traed bwriadol ac asesu pa mor niweidiol yw'r diffyg cynnydd i'r plentyn.

Gall esgeulustod achosi niwed sylweddol ac mae'n achosi niwed sylweddol. Mae'r canllawiau diogelu statudol i Weithdrefnau Diogelu Cymru'n nodi, 'Gall canfod esgeuluso fod yn heriol mewn rhai achosion oherwydd bod angen edrych y tu hwnt i gyfnodau rhianta unigol ac ystyried parhad, amllder, hyd a lled a hollbresenoldeb ymddygiad rhianta a all ei wneud yn niweidiol a chamdriniol.' Hefyd i'w nodi yn yr un canllawiau mae, 'Mae amharodrwydd i farnu patrymau o ymddygiad rhieni, yn benodol os ystyrir bod ei wraidd mewn diwylliant neu os ydyw'n gysylltiedig ag anfantais cymdeithasol megis tlodi'. Mae angen i bob ymarferydd hefyd fod yn effro i'r pryderon canlynol yn y canllawiau diogelu hyn sy'n nodi 'mewn teuluoedd lle mae esgeulustod oherwydd amhariad ar allu rhianta, gall ymarferwyr ganolbwyntio ar anghenion y rhiant yn hytrach na'r plentyn. Os bydd y cymorth ar gyfer y rhiant yn bennaf er mwyn cynorthwyo ei allu i rianta ac mae'n bosibl nad ystyrir a yw hyn mewn difri'n arwain at ganlyniadau gwell i'r plentyn.

Gall ffug-gydymffurfiaeth rhiant hefyd fod yn broblem lle mae rhiant yn rhoi ymddangosiad cydweithredu â gwasanaethau er mwyn osgoi codi amheuan a lleddfu pryderon. Mae Gweithdrefn Diogelu Cymru hefyd yn nodi, 'Mae'n bwysig sicrhau'r ffeithiau a chael

tystiolaeth am yr hyn sy'n digwydd go iawn neu'r llwyddiant a wnaed er mwyn peidio â cholli golwg ar y sefyllfa.'

Gwasanaethau tai a phryderon diogelu.

Nid oedd rhiant y plentyn wedi cydymffurfio â gweithdrefnau tystysgrif diogelwch nwy (nid oedd credyd nwy ar y mesurydd talu ymlaen llaw ar gyfer sawl apwyntiad). O ganlyniad, cafodd y mesurydd nwy ei gapio oherwydd bod dyddiad pen-blwydd y gwasanaeth wedi dod i ben, gan atal y cyflenwad nwy i gartref y plentyn, i bob pwrpas. Arweiniodd hyn at ddim gwres canolog nwy, dŵr poeth cyfyngedig na chyfleusterau coginio o fis Tachwedd 2016. Cafodd y plant eu symud ym mis Awst 2017. Roedd y plant heb amwynderau nwy ar gyfer y cyfnod hwnnw o fis Tachwedd 2016 tan fis Awst 2017. Ni wnaed unrhyw atgyfeiriadau diogelu ynglŷn â'r plant. Ers hynny, mae adran Tai BM wedi diwygio ei gweithdrefnau ac yn hyderus y byddai unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn y dyfodol yn arwain at wneud atgyfeiriadau diogelu priodol am blant neu oedolion agored i niwed a adawyd heb fynediad at offer gwresogi, dŵr poeth neu goginio.

Meddyginiaeth ragnodedig heb ei hawlio ar gyfer plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Nid oedd y rhiant wedi casglu meddyginiaeth ragnodedig o'r fferyllfa ar gyfer ei phlentyn a oedd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yn rheolaidd. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r meddyg teulu a byddant yn parhau gyda staff diogelu o Fwrdd Ysbyty Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Pwyllgor Meddygol Lleol i sicrhau bod y meddyg teulu'n cael gwybod drwy fferyllfa os na chaiff unrhyw feddyginiaeth ragnodedig ei chasglu ar gyfer plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Yna bydd atgyfeiriad diogelu yn cael ei gynhyrchu. Yn ogystal, bydd Tîm Diogelu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cysylltu â'r Pwyllgor Meddygol Lleol i sicrhau bod hyn yn cael ei wreiddio ym mhob practis meddyg teulu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mynediad at gofnodion meddygon teulu gan dimau meddygol sy'n cefnogi plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd

Trafodaethau pellach i'w cynnal rhwng Cynrychiolwyr diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Gofal Sylfaenol i sicrhau bod timau arbenigol fel y rhai sy'n cefnogi plant â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yn cael mynediad hawdd i gofnodion iechyd meddyg teulu. O ran y plentyn hwn, byddai hyn wedi helpu i ganolbwyntio ymyriadau ar y plentyn a byddai wedi ysgogi atgyfeiriadau diogelu pellach.

Cyswllt rhwng ysgolion a thimau meddygol sy'n cefnogi plentyn â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd.

Trafodwyd hyn yn y Digwyddiad Dysgu ac roedd yn amlwg o amserlen yr Adolygiad Ymarfer Plant y byddai cyfarfod rhwng yr ysgol a'r tîm nyrsio arbenigol yn fuan ar ôl i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol wedi arwain at ffocws cryfach ar les cyffredinol y plentyn. Byddai'r rhiant weithiau'n honni bod presenoldeb gwael y plentyn yn deillio o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'i gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, ond dywedodd y Nyrs Ffibrosis Systig wrth yr ysgol na fyddai iechyd y plentyn yn cael effaith negyddol ar ei bresenoldeb. Er y cydnabyddir bod heriau i gynnull cyfarfodydd rhwng gweithwyr proffesiynol prysur, byddai wedi helpu pawb i gefnogi'r plentyn pe gellid bod wedi cynnal cyfarfod. Gellid bod wedi herio'r rhiant yn

fwy cadarn am bresenoldeb gwael yn gynt a phe bai'r ysgol wedi'i hatgoffa o bryderon diogelu blaenorol, efallai y gallai'r ysgol fod wedi cymryd camau mwy prydlon.

Mae gan Fyrddau Diogelu Eraill bolisi Diogelu Plant Anabl ar wahân. Mae un Bwrdd o'r fath yn nodi'r canlynol am eu Polisi Diogelu Plant Anabl. "Mae'r canllawiau ymarfer hyn yn ei gwneud yn glir bod gan blant anabl yr un hawliau dynol yn union i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod, i'w hamddiffyn rhag niwed a chyflawni canlyniadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru) gan nad yw'r un ohonynt yn blant anabl. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ychwanegol ar blant anabl. Y rheswm am hyn yw eu bod yn fwy agored i niwed o ganlyniad i agweddau negyddol am blant anabl a mynediad anghyfartal at wasanaethau ac adnoddau, ac oherwydd y gall fod ganddynt anghenion ychwanegol sy'n ymwneud â namau corfforol, synhwyraidd, gwybyddol a/neu gyfathrebu."

RSPCA a threfniant diogelu gyda'r NSPCC.

Mae'r RSPCA yn cyfeirio'r holl bryderon amddiffyn plant at yr NSPCC. Nodwyd yn y Digwyddiad Dysgu bod y trefniant hwn wedi helpu i gynyddu atgyfeiriadau diogelu priodol. Credid bod y teulu i ffwrdd ar wyliau felly ni wnaeth atgyfeiriad yr RSPCA ysgogi ymateb ar yr un diwrnod gan yr NSPCC. Ni wnaeth yr RSPCA rybuddio'r heddlu am yr un rheswm gan nad oeddent yn teimlo bod diogelwch unrhyw blentyn mewn perygl unionsyth. Mae'r trefniant diogelu rhwng yr RSPCA a'r NSPCC yn ymddangos yn gadarn ond atgoffwyd y ddwy asiantaeth yn y Digwyddiad Dysgu bod yr heddlu'n hapus i gael eu galw gydag unrhyw bryderon a allai fod gan yr RSPCA; nid dim ond materion y mae angen ymateb iddynt ar frys.

Cronni, hunan-esgeulustod a diogelu.

Roedd y Digwyddiad Dysgu yn canolbwyntio ar amodau gwael y cartref a'r effaith negyddol iawn a gafwyd ar les a diogelwch y plant. Roedd yn amlwg nad oes dull amlasiantaethol cydlynol o ymdrin â materion cronni gwastraff yn y cartrefi ym Mro Morgannwg. Byddai gwell dealltwriaeth o hyn yn helpu i wella lles plant ac oedolion yn yr ardal honno. Roedd ymdrechion blaenorol wedi'u gwneud i gynorthwyo ag amodau gwael yn y cartref ond nid aethpwyd i'r afael â gwraidd y broblem felly roedd unrhyw gynnydd da yn fyrdymor. Mae gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru Brothocol Cronni y gellid ei fabwysiadu.

"Mae'r Protocol Cronni'n nodi fframwaith ar gyfer gofal cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol eraill i weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar atebion. Mae'r protocol yn cynnig arweiniad clir i staff sy'n gweithio gyda chronwyr." Mae'n amlinellu bod cronni gorfodaethol yn broblem am sawl rheswm. Oherwydd maint yr annibendod, efallai na fydd y person yn gallu defnyddio'r ystafelloedd yn ei dŷ at y diben a fwriadwyd, neu hyd yn oed allu eistedd mewn cadair heb orfod symud pethau. Mewn achosion eithafol gall y pentyrrau o annibendod ddod yn risg tân a gallant arwain at y cronwr yn baglu ac yn disgyn. Ac oherwydd bod y cartref bron yn amhosibl ei lanhau, mae amodau byw yn tueddu i fod yn afreolus iawn a gallant arwain at blâu cnofilod neu bryfed, draeniau wedi'u blocio a phroblemau eraill a allai hefyd effeithio ar eiddo cyfagos. Mae'r cronwr fel arfer yn amharod neu'n methu â chael ymwelwyr, neu hyd yn oed ganiatáu i grefftwyr wneud atgyweiriadau hanfodol. Maent yn mynd yn ynysig ac yn unig yn gyflym ac yn aml yn dueddol o ddioddef gorbryder ac iselder. Mae'n debyg bod cronni'n dod â chysur iddynt, ond yn y bôn maent yn anhapus. Efallai y byddant yn anwybyddu pledio gan deulu a ffrindiau i gael help, gan nad ydynt yn ei weld fel problem neu ni allant ddod â'u hunain i fynd i'r afael ag ef. Mae'r cronni'n cymryd drosodd bywyd yr

unigolyn yn llythrennol, gan achosi i'w berfformiad gwaith, ei hylendid personol a'i fywyd cymdeithasol ddioddef. Efallai y byddant yn anwybyddu pledio gan deulu a ffrindiau i gael help, gan nad ydynt yn ei weld fel problem neu ni allant ddod â'u hunain i fynd i'r afael ag ef. Mae'r cronni'n cymryd drosodd bywyd yr unigolyn yn llythrennol, gan achosi i'w berfformiad gwaith, ei hylendid personol a'i fywyd cymdeithasol ddioddef.”

Gwella Systemau ac Arfer

Er mwyn hyrwyddo dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Plant a'i asiantaethau aelod a'r canlyniadau gwella a ddisgwylir:-

Gwelliannau Asiantaethau mewn Ymarfer

Mae asiantaethau eisoes wedi cymryd camau i wella ymarfer yn ystod yr amser sydd wedi mynd heibio ers ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn Awst 2017. Cyfeiriwyd at y camau hynny ond fe'u rhestrir isod:

1. Ers hynny, mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi newid eu gweithdrefnau a'u canllawiau ynghylch atgyfeiriadau MARF a gwneir ymdrechion yn awr i siarad â'r atgyfeiriwr cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gwtogi unrhyw gysylltiad â'r plentyn.
2. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wedyn o ran cofnodi pryderon am blant yn ysgolion Bro Morgannwg ar y system gofnodi electronig 'Fy Mhryder' a byddai dull mwy cadarn sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei wneud yn awr pe bai plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn anhylan a heb ei wisgo'n annigonol.
3. Ers hynny, mae adran Tai BM wedi diwygio ei gweithdrefnau ac yn hyderus y byddai unrhyw geisiadau yn y dyfodol i dorri cyflenwadau nwy'n arwain at wneud atgyfeiriadau diogelu priodol am blant neu oedolion agored i niwed a adawyd heb fynediad at offer gwresogi, dŵr poeth neu goginio.


Camau a Argymhellir ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Mae'r pwyntiau dysgu a nodwyd trwy'r adolygiad hwn wedi arwain at ragor o gamau cymeradwy ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.


1. Mae'r Canllawiau a'r Protocol Esgeuluso Plant – Ymarfer yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn ardal Caerdydd a'r Fro. Ar ôl eu hadolygu, mae angen eu hanfon i'r holl staff sy'n ymwneud â diogelu. Mae angen datblygu strategaeth hyfforddi amlasiantaethol i adnewyddu'r holl staff sydd ag egwyddorion ac ymyriadau arfer da ar gyfer teuluoedd â phlant sydd wedi'u hesgeuluso.
2. Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn siarad ag atgyfeirwyr fel rhan o benderfynu a yw'r atgyfeiriad yn bodloni trothwy.
3. Gwella ymwybyddiaeth ac annog pob asiantaeth i ddefnyddio'r Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol.

4. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i ystyried mabwysiadu a hyrwyddo Polisi Diogelu Plant Anabl.
5. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i ystyried mabwysiadu a hyrwyddo Protocol Cronni i ategu Negeseuon Hunan-Esgeulustod Bwrdd Iechyd y Brifysgol ar gyfer Ymarfer.
6. BIP Caerdydd a'r Fro i sefydlu safoni cynllunio gofal iechyd ar gyfer plant â chyflyrau cymhleth sy'n cyfyngu ar fywyd.
7. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i ymgysylltu â Gofal Iechyd Digidol Cymru i weld a ellid datblygu system i hysbysu meddygon teulu pan na chaiff presgripsiynau ailadroddus eu casglu neu eu dosbarthu o'r fferyllfa.
8. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i archwilio ymhellach gyda Gofal Iechyd Digidol Cymru, gan wella'r modd y gall timau iechyd sy'n cefnogi plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd gael gafael ar eu cofnodion meddygon teulu.
9. Dylid atgoffa staff yr RSPCA o'r amgylchiadau pan allant hefyd dynnu sylw'r heddlu at faterion diogelu yn ogystal â gwneud atgyfeiriad i'r NSPCC.

Datganiad gan Adolygwr/wyr			
ADOLYGYDD 1 Jane Foulner		ADOLYGYD D 2 (fel y bo'n briodol)	
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	
<p>Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd gennyf unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i 		<p>Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd gennyf unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi unrhyw gyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei 	

werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl	ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl
Adolygydd 1 (Llofnod)	
Enw (Priflythrennau)	Jane Foulner
Dyddiad	Mis Chwefror 2021

Adolygydd 2 (Llofnod)
Enw (Priflythrennau)
Dyddiad

Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)	
Enw (Priflythrennau)	...Sian Kirk.....
Dyddiad	Mis Chwefror 2021

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl
Atodiad 2: Amserlen Gryno

Y Broses Adolygu Arfer Plant

I gynnwys yn gryno yma:

- *Y broses a ddilynodd y Bwrdd Diogelu Plant a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau oedd yn bresennol*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, ceisiwyd eu barn ac fe'u cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt*

Sefydlwyd Panel Adolygu Ymarfer Plant ar 30/09/20, dan gadeiryddiaeth Sian Kirk, Arweinydd Diogelu, Canolfan Diogelu Lloches Cymru a De-orllewin Lloegr, Cyfarwyddiaeth Ailsefydlu, Cymorth Lloches ac Integreiddio. Yr Adolygydd oedd Jane Foulner, Uwch Swyddog Prawf, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Caerdydd. Roedd Mandy Evans, Prif Weithredwr MIRUS yn adolygydd arsylwol.

Roedd y Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Plant BM, Gwasanaethau Tai BM, Adran Addysg BM a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 02/02/21. Daeth cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc BM, Gwasanaethau Tai BM, Adran Addysg BM, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yr NSPCC a'r RSPCA i'r digwyddiad dysgu.

Cysylltwyd â theulu'r plant a chynhaliwyd cyfweiliadau gyda dau aelod o'r teulu sy'n oedolion. Cafodd cyfweiliad pellach ei gynnal hefyd gyda'r meddyg teulu.

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth

Dyddiad yr anfonwyd y llythyr cydnabod at Gadeirydd y BDPRh

Dyddiad anfon i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol

Asiantaethau	Ydy	Nac oes	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Cwnstablath AEM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Prawf AEM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Cylch Gorchwyl Adolygiad Arfer Plant Cryno Parthed: CAP 04/2018

Cyflwyniad

Caiff adolygiad arfer plant cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1. Comisiynir adolygiad arfer plant cryno pan fo plentyn mewn perygl sydd heb, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w ddiogelu rhag cam-drin neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol a'i fod wedi:

- marw; neu
- gael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- gael nam difrifol a pharhaol parhaus ar iechyd.

Cylch Gorchwyl

Y cylch gorchwyl a gytunwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yw:

- Yr amserlen ar gyfer yr adolygiad fydd **1 Awst 2015 – 31 Awst 2017**.
- Bydd y gwasanaethau canlynol yn llunio cronoleg/amserlen o ddigwyddiadau arwyddocaol o ran eu gwaith â'r plentyn (a'r teulu), at ddiben yr amserlen y cytunwyd arni uchod. Yna caiff cronoleg gyfunol ei llunio.
 - Heddlu De Cymru
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 - Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg
 - Gwasanaethau Addysg Bro Morgannwg
 - Tai Bro Morgannwg

Tasgau Craidd (ar gyfer adolygiad ymarfer cryno)

- Penderfynu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu'n yr achos yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau i'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaeth a gwasanaethau i'r unigolyn a'i deulu

- Penderfyniad i ba raddau yr oedd penderfyniadau a champau gweithredu wedi'u canolbwyntio'n unigol
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw archwiliadau neu waith cyd-aliniol o ran yr achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwr/wyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â chanllawiau adolygiadau cryno ac estynedig.
 - Cytuno ar yr amserlen.
 - Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad nas ceisiwyd eto gan Is-grwp AAP/AAO, llunio amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau unsyth i'w cymryd.
 - Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaeth.
 - Cynllunio gydag adolygydd/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, i gynnwys nodi pwy sy'n dod a threfniadau i baratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
 - Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr drefniadau cyswllt â'r unigol ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
 - Derbyd ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad arfer plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i gyflawni, yr ymdriniwyd â'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw wersi ychwanegol wedi'u nodi a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.
 - Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r BDPRh i'w hystyried a chytuno arnynt
 - Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
 - Cynhyrchu briff 7 munud ar y dysgu a nodwyd o'r Adolygiad Ymarfer Plant.
- Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol**
- Ystyried a chytuno i unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y *panel adolygu'n* cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- BDPRh i anfon yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r asiantaethau perthnasol i roi sylw terfynol arnynt cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Is-Grwp AAP/AAO i gadarnhau trefniadau rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth, gan gynnwys sut y caiff y gwelliannau disgwylidig i'r gwasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y BDPRh
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- **Cyd-gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Bro Morgannwg** fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw sylwadau cyhoeddus ac ymateb i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad tan gwblheir y broses. Rhagfynegir na fydd datgeliad gwybodaeth cyhoeddus ac eithrio Adroddiad Terfynol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.